# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 8 Mai 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Delwedd Fyd-Eang Cymru

**C1William Graham:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar effaith y problemau sydd yn wynebu ein diwydiannau amaethyddiaeth, twristiaeth a gweithgynhyrchu ar ddelwedd fyd-eang Cymru? (OAQ11044) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Prif Weinidog Cymru:** Yr ydym yn cydweithio ag amrediad o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus i ddatblygu ymagwedd gydgysylltiedig ar lefel Cymru gyfan i hybu ein proffil rhyngwladol.

Crewyd llawer o gam-wybodaeth mewn rhai o'n prif farchnadoedd twristiaeth tramor oherwydd clwy'r traed a'r genau. Mae Bwrdd Croeso Cymru, gan gydweithio ag Awdurdod Twristiaeth Prydain, wedi cychwyn ymgyrch cyfathrebu i wneud iawn am hynny. Mae Dirprwy Brif Weinidog Cymru wedi rhoi cyfweliadau ar CNN a Gwasanaeth y Byd ar y BBC, wedi cyfarfod â phrif weithredwyr teithio o dramor ac wedi ymweld â'r Iseldiroedd a'r Almaen i atgyfnerthu'r neges bod Cymru yn wir ar agor i fusnes. Hefyd, yr ydym yn cymryd camau i sicrhau bod y prif farchnadoedd allforio ar gyfer cynnyrch amaethyddol Cymru dal ar gael ar ôl i ddigwyddiadau'r clwyf ddod i ben.

*Atebwyd cwestiynau 2 i 11 yn y Cyfarfod Llawn.*

### Cynyddu Ymwybyddiaeth Pleidleiswyr yng Nghymru

**C12 Richard Edwards:** Pa drafodaethau a gafodd Prif Weinidog Cymru â'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch datblygu ffyrdd o gynyddu ymwybyddiaeth pleidleiswyr yng Nghymru. (OAQ11074) ***Tynnwyd yn ôl.***

### 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'

**C13 David Melding:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru restru'r rhannau o 'Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru' nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith hyd yma? (OAQ11073) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Recriwtio i'r Heddlu yng Nghymru

**C14 Ann Jones:** Pa drafodaethau a gafodd Prif Weinidog Cymru yn ddiweddar ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, neu'r Ysgrifennydd Cartref, ynghylch recriwtio i'r heddlu yng Nghymru? (OAQ11072)

**Prif Weinidog Cymru:** Dim. Dyrannwyd 422 o recriwtiaid i'r pedwar heddlu yng Nghymru dros dair blynedd hyd at 2002-03 o'r gronfa ymladd troseddu. Recriwtiodd yr heddluoedd tua 160 o heddweision drwy'r gronfa honno yn 2000-01 a buont yn gymwys am tua £2.3 miliwn o grantiau ohoni. Daw recriwtiaid o'r gronfa ymladd troseddu ar ben cynlluniau recriwtio blaenorol yr heddluoedd.

### Gwleidyddiaeth Gynhwysol

**C15 Janet Ryder:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ei ymrwymiad i sefydlu cyfundrefnau sefydliadol a fydd yn symud Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn agosach at wleidyddiaeth gynhwysol? (OAQ11060)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i wleidyddiaeth gynhwysol ac yn croesawu awgrymiadau o bob tu am unrhyw angen am ffyrdd newydd o hybu gwleidyddiaeth gynhwysol.

### Ymdriniaeth o Argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau

**C16 David Davies:** A yw ymdriniaeth y Cynulliad a'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o argyfwng clwy'r traed a'r genau wedi effeithio ar bartneriaeth y Cynulliad â busnesau mewn unrhyw ffordd? (OAQ11046)

**Prif Weinidog Cymru:** Un agwedd gadarnhaol ar yr argyfwng yw bod cyswllt cryfach ag amrediad o grwpiau allanol sydd â diddordeb, ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol gydlynu polisi wrth ymateb i effeithiau clwy'r traed a genau.

### Gwella Delwedd Cymru

**C17 Val Feld:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru adrodd ar y cynnydd a gafwyd, ers ei ddatganiad diwethaf, gyda'r gwaith o wella delwedd Cymru? (OAQ11084)

**Prif Weinidog Cymru:** Un o brif flaenoriaethau'r Cabinet yw codi proffil Cymru dramor. Yr ydym yn cydweithio ag amrediad o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus i ddatblygu ymagwedd gydgysylltiedig ar lefel Cymru gyfan i hybu ein proffil rhyngwladol.

Yn ogystal ag ystod o weithgareddau sy'n mynd rhagddynt, fel y rhaglen hybu masnach, bu ymweliadau a digwyddiadau eraill uchel eu proffil eleni, gan gynnwys ymweliadau gan y Tywysog Coronog Billah o Brunei, y Taoiseach Bertie Ahern, TD, a'r Arlywydd Pujol o Gatalonia.

Arwyddwyd memorandwm cyd-ddealltwriaeth newydd rhwng Cymru a Chatalonia yn ystod ymweliad yr Arlywydd Pujol.

Cynaliasom fforwm ar Gymru, Ewrop a'r byd, ac yr ydym wedi cyflwyno pecyn cyfathrebu newydd '*Wales. World Nation*'.

Mae'r Cabinet hefyd wedi sefydlu is-bwyllgor ar le Cymru yn y byd, a fydd yn datblygu a gyrru ymlaen at raglen lawn o weithgareddau yn y maes hwn.

Byddwn ni'n parhau i chwilio am gyfleoedd newydd i hybu Cymru a manteisio ar ein cyfleoedd presennol.

### Cyfle Cyfartal, Cynhwysiant Cymdeithasol a Datblygu Cynaliadwy

**C18 Dafydd Wigley:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ddatblygu a chydlynu polisïau i hybu pwysigrwydd cyfle cyfartal, cynhwysiant cymdeithasol a datblygu cynaliadwy i bobl Cymru? (OAQ11076) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Agenda Ddeddfwriaethol y Cabinet

**C19 Ieuan Wyn Jones:** Pa gyfundrefnau y mae Prif Weinidog Cymru yn eu defnyddio i sicrhau bod pob Aelod o'r Cynulliad yn ymwybodol o agenda ddeddfwriaethol ei Gabinet? (OAQ11062) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Ffigurau Cyflogaeth

**C20 Christine Gwyther:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi eu cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch tueddiadau ffigurau cyflogaeth y DU yn y dyfodol a sut y byddant yn effeithio ar Gymru? (OAQ11077) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cymunedau mewn Angen am Gymorth Cymdeithasol ac Economaidd

**C21 Helen Mary Jones:** Yn ei rôl fel cydlynydd datblygu polisi, pa gamau gall Prif Weinidog Cymru eu cymryd i sicrhau bod y cymunedau sydd â'r angen mwyaf am gymorth cymdeithasol ac economaidd yn derbyn y cymorth hwnnw? (OAQ11061) ***Tynnwyd yn ôl.***